Crynodeb Gweithredol

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

1. Ers 1997 mae'r Llywodraeth wedi trawsnewid gwaith a chyfle ym Mhrydain, gyda 2.6 miliwn mwy o bobl mewn swyddi a mwy o ferched, rhieni sengl a phobl anabl mewn gwaith nac erioed o'r blaen. Mae sefydlogrwydd economaidd a hyblygrwydd y farchnad llafur, ynghyd â hawliau'r gweithwyr a rhaglenni bywiog symud o fudd-dâl i waith, wedi cyfuno i gynhyrchu'r gyflogaeth uchaf erioed yn hanes ein gwlad. Mae'r diweithdra torfol a fu'n nychdod ar y wlad yn ystod y 1970au a'r 1980au bellach yn atgof gwan.

2. Ac eto, mae rhwystrau ystyfnig i'n nod o gyflogaeth lawn yn ystod ein cenhedlaeth ni yn parhau. Mae dros dair miliwn o bobl o oed gwaith wedi bod ar fudd-daliadau ers dros flwyddyn, llawer ohonynt ar fudd-daliadau analluogrwydd. Mae crynoadau o ddiweithdra yn ein dinasoedd, yn aml yn agos i farchnadoedd llafur llewyrchus. Mae yna ymron i dair miliwn o dai preswyl lle nad oes neb ynddynt yn gweithio, a 1.7 miliwn o blant ar eu prifiant yn y fath deuluoedd.

3. Mae'r nod o gyflogaeth lawn o bwys i bobl oherwydd bod y cyfle i weithio yn agor y drws i gamu ymlaen, i ddatblygu ac i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas. Gwyddom fod pobl sydd mewn gwaith yn aml yn iachach, ac yn fwy bodlon na'r rhai nad ydynt. Mae o bwys i gymdeithas oherwydd bod y tlodi sydd ynghlwm wrth ddiweithdra yn rhannu cymunedau ac yn amddifadu gormod o blant rhag cael cyfle teg mewn bywyd. Mae o bwys i'r economi oherwydd bod twf cynaledig yn ddibynnol ar weithlu fywiog sy'n tyfu. Fel bo'r boblogaeth yn heneiddio, mae twf naturiol y gweithlu yn arafu ac mae angen i ni dynnu mwy o bobl i mewn. A mae cyflogaeth lawn o bwys i'r trethdalwr oherwydd bod costau lles yn dargyfeirio arian y gellid ei ddefnyddio mewn mannau eraill.

4. Er gwaethaf y ffaith bod y gwelliannau mwyaf wedi bod ymhlith y grwpiau a fu isaf eu byd, mae'r hyn a etifeddwyd gennym yn golygu bod bylchau'n bodoli sydd yn parhau i fod yn rhy eang rhwng cyfraddau cyflogaeth gwahanol grwpiau. Mae pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau, teuluoedd un rhiant a phobl gyda sgiliau isel neu ddim sgiliau yn llawer llai tebygol o fod mewn gwaith na'r boblogaeth o oed gweithio yn ei chrynswth.

5. Ein nod yw codi'r raddfa gyflogaeth i 80 y cant, i leihau y nifer o bobl o oedran gweithio sydd yn ddibynnol ar fudd-daliadau ac i barhau i gau'r bylchau cyflogaeth rhwng gwahanol grwpiau. Er mwyn cyflawni hyn mae angen i ni newid cyfeiriad rhywfaint o safbwynt y cynhorthwy a gynigiwn i'r rhai hynny sydd fwyaf o dan anfantais yn y farchnad gyflogaeth.

6. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn gosod cyfres o gamau y byddwn yn eu cymryd er mwyn cyflawni cyflogaeth lawn. Nod yw hwn sydd wrth wraidd ein hymgyrch i ddiddymu tlodi plant. Fel dywedodd y Prif Weinidog ym Mehefin 2007, "Yn y wlad sy'n bedwaredd yn y byd o ran cyfoeth y mae'n syml yn anghywir – yn anghywir bod unrhyw blentyn yn tyfu i fyny mewn tlodi." Ond mae tlodi yn parhau i ddifetha bywyd gormod o blant ym Mhrydain.

7. Mae un cam allweddol yn adeiladu ar enghraifft arloesol y Partneriaethau Cyflogaeth Lleol a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn ei ddatganiad Cyllideb 2007.

8. Wrth galon y partneriaethau newydd hyn bydd 'Ernes Swyddi' a thrwyddi rydym yn anelu at brif gyflogwyr, yn y sectorau preifat a chyhoeddus, i gynnig chwarter miliwn o gyfleoedd swyddi. Bydd y cyfleoedd hyn ar gyfer pobl sydd o dan anfantais yn y farchnad gyflogaeth, megis rhieni sengl a'r rhai sydd ar fudd-daliadau analluogrwydd – cyn belled â'u bod yn cyd-dynnu â'r cynhorthwy sydd ar gael a'u bod yn barod, yn dymuno ac yn gallu gweithio.

9. Eisoes, mae oddeutu 30 o gyflogwyr, gan gynnwys Asda, B&Q, Tesco, Sainsbury's, Marks and Spencer, Carrilion a McDonalds wedi ymrwymo i'r ernes hon. Rydym o'r farn y bydd yr ymrwymiad cenedlaethol newydd hwn yn rhoi mwy o siawns i'r unigolion hyn gystadlu am y 600,000 o swyddi gwag sydd yn codi yn y farchnad gyflogaeth bob un mis. Oherwydd ein bod yn cynnig llawer mwy o gynhorthwy i unigolion, dylem, fel cydnabyddiaeth, ddisgwyl iddynt achub ar y cyfle i dderbyn y cyfleoedd a ddarparwyd gan y cyflogwyr.

10. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn adeiladu ar waith y Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau ac adroddiadau annibynnol diweddar gan David Freud ar symud o fudd-dâl i waith[1], Lisa Harker ar dlodi plant[2], a'r Arglwydd Leitch[3] ar sgiliau. Mae'n amlinellu sut y mae'r Llywodraeth, gan gydweithio gyda chyflogwyr yn ogystal â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn cynnig sut maent am fynd i'r afael â'r pynciau hyn.

1 Reducing dependency, increasing opportunity: options for the future of welfare to work, Mawrth 2007.
2 Delivering on child poverty: what would it take?, Tachwedd 2006.
3 Prosperity for all in the global economy – world class skills, Rhagfyr 2006.

Pennod un – Y cynnydd mewn symud o fudd-dâl i waith

11. Ers 1997 rydym wedi ymgymryd â chyfres o ddiwygiadau radical i'r wladwriaeth les a gynlluniwyd i wella'r cyfleoedd a'r anogaethau i bobl weithio a chynyddu'r cynhorthwy i bobl wrth wneud hynny. Rydym wedi:

- **trawsnewid darpariaeth** cynhorthwy cyflogaeth drwy greu Canolfan Byd Gwaith drwy gyfuno'r Gwasanaeth Cyflogi a'r Asiantaeth Budd-daliadau. Mae Canolfan Byd Gwaith yn sicrhau fod pawb sydd yn gwneud cais am fudd-dâl yn cael trafodaeth ynghylch dychwelyd i waith, ac mae cyngor a chynhorthwy proffesiynol ar gael;

- lansio **rhaglenni cyflogaeth arloesol** i helpu pobl i gael swydd neu fynd yn hunan-gyflogedig. Mae'r Bargeinion Newydd ar gyfer y di-waith tymor-hir yn cyfuno mwy o gyfrifoldeb ar yr unigolyn i chwilio am waith, gyda mwy o gynhorthwy drwy gyngor personol, hyfforddiant a ffyrdd eraill. Mae'r rhaglen Llwybrau at Waith, ynghyd â'r Bargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl, yn rhoi cymorth arbenigol am y tro cyntaf, i rai sydd yn dioddef anabledd neu salwch hirdymor i fynd yn ôl i weithio. Ac y mae'r Fargen Newydd i Rieni sydd ar eu pen eu hunain yn darparu cynhorthwy ar gyfer rhieni sengl sydd eisiau chwilio am waith; a

- **gwell anogaethau i weithio** drwy ddarparu mwy o gynhorthwy, drwy gynyddu darpariaeth gofal plant yn sylweddol, a thrwy gyflwyno'r isafswm cyflog.

12. Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau hyn wedi arwain at wellhad arwyddocaol ym mherfformiad marchnad llafur y DU. Mae gennym fwy o bobl mewn gwaith nac erioed o'r blaen, gyda 2.6miliwn mwy o bobl mewn gwaith o'i gymharu â 1997. Bellach, mae gan y DU un o'r cyfraddau gweithio uchaf yn y byd – uwch na'r Unol Daleithiau, Siapan, Yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal.

13. O bwys mawr, mae'r gwelliannau mwyaf ymhlith y grwpiau ac yn yr ardaloedd a gychwynnodd yn y man gwaethaf. Ers 1997 mae cyfradd gyflogaeth rhieni ar eu pen eu hunain wedi codi ymron 12 pwynt canran, gyda rhagor na miliwn o rieni ar eu pen eu hunain bellach mewn swyddi. Dros yr un cyfnod, mae cyfradd gyflogaeth gyda chyflwr afiechyd neu anabledd wedi cynyddu gan naw pwynt canran; ac ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan 4.5 pwynt canran.

14. Mae'r nifer o bobl sydd ar fudd-daliadau anabledd, a fu'n codi'n gyson am dri degawd, bellach wedi dechrau gostwng ac mae i lawr o ragor na 100,000 ers ei fan uchaf yn 2003. Am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth, mae nifer y di-waith, rhieni ar eu pen eu hunain a phobl sâl a'r anabl ar fudd-daliadau i gyd yn gostwng ar yr un pryd.

15. Ers 1997 mae nifer y plant sydd yn byw mewn cartref ble nad yw neb yn gweithio wedi gostwng o 440,000. Gwnaeth hyn gyfraniad mawr i fynd i'r afael â thlodi plant, ac mae wedi gwyrdroi'r cynnydd hirsefydlog a oedd i'w weld hyd at ganol y 1990au. Ers 1998-99 mae nifer y plant sydd yn byw mewn tlodi wedi gostwng o 3.4 miliwn i 2.8 miliwn.

Pennod dau – Cyfle i weithio i bawb

16. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae llawer mwy eto i'w wneud. Mae lleihau nifer y bobl ddi-waith yn hanfodol i chwalu'r cylch o ddifreiniad ac yn allweddol i leihau tlodi ymysg plant yn y genhedlaeth hon a'r rhai sydd i ddod.

17. Er cyrraedd ein huchelgais o gyfradd gyflogaeth o 80 y cant, mae angen i ni:

- **symud mwy o bobl sydd ar fudd-daliadau anactif i mewn i waith**, yn arbennig y rhai a fu ar fudd-daliadau am gyfnod hir. Mae gwireddu ein huchelgais yn golygu gostyngiad o filiwn yn nifer y rhai sydd yn hawlio budd-daliadau analluogrwydd; a chynnydd o 300,000 o rieni ar eu pen eu hunain a miliwn o bobl hŷn mewn gwaith;

- **cynyddu cyflogaeth ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig**. Er bod y bwlch wedi culhau ers 1997, mae lleiafrifoedd ethnig yn parhau gyda chyfradd gyflogaeth sydd yn 14 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a lefelau uchel o dlodi plant. Mae angen i ni wneud rhagor i annog cyfranogi ac i fynd i'r afael ag anffafriaeth, yn arbennig at ferched o dras Bacistanaidd neu Fangladeshi;

- **cynyddu'r gyfradd gyflogaeth mewn dinasoedd ac yn arbennig yn Llundain**. Erbyn hyn, ychydig iawn o ardaloedd sydd â chyfradd gyflogaeth is na'r cyfartaledd yn yr Undeb Ewropeaidd (UE), ond canolir y cyfraddau cyflogaeth isaf mewn dinasoedd;

- **arfogi unigolion gyda'r sgiliau y mae eu hangen arnynt hwy a chyflogwyr** i gystadlu mewn economi byd-eang. Yn benodol mae'n rhaid i ni leihau nifer y rhai 16-17 oed nad ydynt mewn addysg amser-llawn, cyflogaeth na hyfforddiant; sicrhau fod gan bobl ifainc sydd yn gadael addysg amser-llawn y sgiliau a'r hyfforddiant y mae eu hangen arnynt er mwyn symud yn effeithlon i mewn i waith; a darparu cynhorthwy effeithlon i'r oedolion hynny y mae eu diffyg sgiliau yn rhwystr iddynt i chwilio am ac aros mewn gwaith; a

- **gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr** i agor cyfleoedd am swyddi i'r grwpiau sydd fwyaf o dan anfantais.

18. Mae ymfudiad i'r DU wedi cynyddu, nid yn unig oherwydd bydehangu ac ymestyn yr UE, ond oherwydd bod ein marchnad lafur hyblyg yn ddeniadol. Yn lle diweithdra uwch, canlyniad hyn fu rhagor o swyddi i fewnfudwyr a brodorion fel y'i gilydd. Serch hynny nid yw argaeledd gweithwyr hyblyg gyda sgiliau o dramor yn lleihau'r angen mewn unrhyw ffordd i ni wella sgiliau ein poblogaeth ein hunain; i sicrhau y gallant gystadlu yn y farchnad lafur a chael y cyfle i gymryd un o'r 600,000 o swyddi gweigion sydd ar gael pob un mis ar ôl mis. Mae ymfudwyr wedi dangos fod y cyfleoedd am swyddi i'w cael.

Pennod tri – Partneriaethau Cyflogaeth Lleol

19. Mae'r Papur Gwyrdd hwn felly yn amlinellu'r camau nesaf y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd ar y ffordd tuag at gyflogaeth lawn. Mae hyn yn golygu bywiogi'n cam wrth fynd ati.

20. Egwyddorion arweiniol ein polisïau marchnad lafur yw:

- **cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau**: mae llawer o bobl sydd yn gallu gweithio angen help i chwilio am waith a goresgyn rhwystrau. Mae hefyd angen cymorth ariannol arnynt tra bônt allan o waith. I gydnabod hynny dylem ddisgwyl i bobl sydd yn derbyn budd-daliadau i wneud yr hyn a allant i'w helpu eu hunain i fewn i waith;

- **dull personoledig ac ymatebol**: dylai'r gyfundrefn deilwra'r cynhorthwy yn unol ag anghenion unigol, gan gynnwys cymorth gyda sgiliau, iechyd, gofal plant, cymorth ariannol a threfnu mynediad i hyfforddiant priodol;

- **cadw swydd a gwneud cynnydd ynni, nid dim ond sicrhau swydd**: rhai i'r gyfundrefn wneud rhagor i gynorthwyo pobl i aros mewn gwaith ac i ddringo'r ysgol drwy well cynhorthwy-mewn-gwaith – drwy gyngor, anogaethau ariannol a hyfforddiant;

- **gweithio mewn partneriaeth**: mae'n bwysig gwneud y defnydd gorau o wybodaeth arbenigol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Dylai adnoddau pob un ohonynt gael eu canolbwyntio ar y fan lle gallant ychwanegu gwerth yn fwyaf' yng nghyd-destun strategaeth glir a chyfres o ganlyniadau penodedig gofynnol; a

- **datganoli a galluogi lleol**: gall holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig, dinasoedd ac ardaloedd, chwarae rhan bwysig wrth ganfod blaenoriaethau strategol a dod o hyd i atebion, a dylid cydnabod hyn.

21. Wedi ein tywys gan yr egwyddorion hyn, rydym yn cynllunio trawsnewidiad sylweddol o'n polisi symud o fudd-dâl i waith a'i gyflawniad, gan ganolbwyntio ar y grwpiau hynny sydd angen fwyaf o gymorth i fynd yn ôl i waith. I gyflawni'r newid cam hwn, mae angen i'r Llywodraeth, cyflogwyr ac unigolion chwarae eu rhan.

22. Bydd cyflogwyr wrth graidd ein diwygiadau. Wedi'r cyfan, cyflogwyr sydd yn creu swyddi ac yn cyflogi pobl. Felly ni fydd unrhyw strategaeth ar gyfer symud pobl o fudd-dâl i waith yn llwyddo oni bydd cyflogwyr yn dewis cyflogi pobl.

23. Cyhoeddwyd y Partneriaethau Cyflogaeth Lleol yng Nghyllideb 2007. Drwy'r partneriaethau hyn dangosodd cyflogwyr mawr yn y maes manwerthu, gan gynnwys Asda, B&Q, Marks and Spencer, Sainsbury's a Tesco, eu hymrwymiad i gynorthwyo rhai a fu'n hawlio budd-daliadau dros gyfnod hir yn ôl i waith. Maent yn cydnabod manteision economaidd ehangach o gyflogi gweithlu amrywiol a'r hyn sydd i'w ennill o leihau diweithdra mewn cymunedau lleol.

24. Gan adeiladu ar y partneriaethau hyn, rydym yn cyflwyno 'Ernes Swyddi' newydd, ac o dan hwn ein nod yw bod cyflogwyr mawrion, yn y sector preifat a chyhoeddus yn cynnig chwarter miliwn o gyfleoedd swyddi i bobl sydd o dan anfantais yn y farchnad lafur.

25. Ond y mae'n deilwng i gyflogwyr ddisgwyl rhywbeth yn gyfnewid am hyn. Byddwn yn gwarantu i gyflogwyr y bydd ymgeiswyr am swyddi yn berchen ar yr agwedd gywir at waith yn ogystal â'r gallu priodol.

26. Bydd Canolfan Byd Gwaith, gan weithio gyda'r Cyngor Dysgu a Sgiliau yn Lloegr yn sicrhau bod pobl yn barod at waith. Byddant yn darparu hyfforddiant cyn-gwaith cyffredinol yn ogystal â chynhorthwy i bobl pan fyddant mewn gwaith. Anogir cyflogwyr hefyd i barhau gyda'r buddsoddiad hwn yn unol â'r Ernes Sgiliau a lansiwyd y mis diwethaf a rhaglen Hyfforddi er mwyn Elwa (*Train to Gain*) y Cyngor Dysgu a Sgiliau. I gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth unigolion a chyflogwyr am bwysigrwydd sgiliau lansiodd y Cyngor Dysgu a Sgiliau ymgyrch genedlaethol sgiliau ar 9 Gorffennaf 2007, 'Ein dyfodol: Mae yn ein dwylo ni'. O 2008 bydd Comisiwn newydd y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau yn darparu cynhorthwy ychwanegol ac archwiliad o'r cyfundrefnau cyflogaeth a sgiliau.

27. Mae hyn yn gam mawr tuag at gryfhau'r diwylliant 'rhywbeth am rywbeth' yn ein cyfundrefn symud o fudd-dâl i waith. Bydd o gymorth i sicrhau fod pawb o oedran gweithio sydd yn abl i weithio yn gallu gwneud hynny, gyda'r holl fanteision ariannol ac economaidd a chymdeithasol ehangach a ddaw yn ei sgîl.

Pennod pedwar – Y camau nesaf tuag at gyflogaeth lawn

28. Bydd yr 'Ernes Swyddi' newydd o gymorth i sicrhau bod gwaith ar gael ar gyfer pobl sydd ar hyn o bryd wedi eu cau allan o'r farchnad lafur. Yn gyfochrog â hyn, bydd y Llywodraeth yn diwygio ei phrif raglenni cyflogaeth i'w cymhwyso ar gyfer y 21ain ganrif. Byddwn yn tynnu ar y gwersi o'n profiad o'r ddarpariaeth yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, fel y gallwn ffrwyno cryfderau pob un ohonynt. Mae angen i ni hefyd ddysgu oddi wrth brofiad rhyngwladol, yn arbennig o gyfundrefnau symud o fudd-dâl i waith yn UDA, Awstralia, Seland Newydd, ac mewn gwledydd Ewropeaidd megis Yr Iseldiroedd.

29. Mae ein cynigion yn cynnwys:

- ymestyn ein Llwybrau at Waith fel rhaglen genedlaethol, a fydd yn arwain at gynnydd sylweddol pellach yn y nifer o bobl a fydd yn gadael budd-dâl analluogrwydd am waith;
- cytundeb cymdeithasol newydd gyda rhieni ar eu pen eu hunain, sydd yn disgwyl symudiad i'r farchnad llafur yn y pen draw fel cydnabyddiaeth am y cynhorthwy personoledig angenrheidiol;
- Bargen Newydd mwy personoledig, hyblyg ac ymatebol, yn darparu cynhorthwy sydd yn addas i'r unigolyn;
- agenda cyflogaeth a sgiliau integredig; a
- defnydd helaethach o wybodaeth arbenigol ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ar lefel cenedlaethol a lleol, gan ganiatau i Canolfan Byd Gwaith ganolbwyntio ar ble mae'n ychwanegu fwyaf mewn gwerth.

Pobl ag Anabledd

30. Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yn hawlio budd-daliadau analluogrwydd yn disgwyl ac yn gobeithio dychwelyd i waith. Yr allwedd i gefnogi'r dyheadau hyn yw darparu cynhorthwy hyblyg a gwybodaeth wedi ei theilwra yn gynnar yn y cais. Hynny yn union mae Llwybrau at Waith yn ei wneud – drwy gynnig pecyn o gynhorthwy a gynlluniwyd yn benodol i gyfarfod ag anghenion pobl a chyflwr afiechyd neu anabledd. Datblygwyd Llwybrau mewn ymgynghoriad gyda chwsmeriaid a darparwyr gwasanaethau ac mae'n cymryd agwedd newydd, gan gynnwys cynhorthwy yn-ôl at waith, cyngor ariannol a'r Rhaglenni Rheoli Cyflwr arloesol i gynorthwyo pobl i reoli eu cyflwr iechyd neu anabledd. Gwyddom fod Llwybrau yn gweithio, gan gynorthwyo pobl i swyddi cynaliadwy: mae cwsmeriaid newydd yn ardaloedd Llwybrau yn saith pwynt canran yn fwy tebygol o fod wedi cael swydd ymhen 18 mis. Rydym yn ymestyn Llwybrau at Waith dros y wlad yn gyfan erbyn Ebrill 2008.

31. Bydd cyflwyno'r Lwfans Cyflogaeth a Chynhorthwy o 2008, budd- dâl newydd wedi'i foderneiddio a mwy syml yn darparu cyfleoedd newydd ar gyfer pobl gyda chyflwr iechyd neu anabledd, a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu deisyfiadau i ddychwelyd i waith, tra ar yr un pryd yn parhau i ddarparu cynhorthwy ariannol a chynhorthwy arall lle nad yw hynny'n bosibl.

Rhieni

Rhieni ar eu pen eu hunain

32. Mae niferoedd arwyddocaol pellach o rieni ar eu pen eu hunain yn symud yn ôl i waith yn hanfodol i leihau tlodi plant. Mae buddsoddiad y Llywodraeth yn gwella ansawdd cyflenwad a fforddadwyedd gofal plant a mwy o gamau i sicrhau bod gweithio yn talu, yn rhoi'r cyfle i ni symud ymlaen i oes newydd.

33. Mae nifer o adroddiadau annibynnol wedi awgrymu y byddai, gyda'r pecyn cynhorthwy addas, yn briodol i gynyddu'r cyfrifoldeb i rieni ar eu pen eu hunain gyda phlant hŷn i chwilio am waith a gallai hyn helpu i fynd i'r afael â diweithdra a thlodi plant fel ei gilydd. Cydnabuwyd hyn yn ein strategaeth tlodi plant adferedig 'Gweithio dros Blant' ('*Working for Children*') ym mis Mawrth eleni, ac rydym wedi cyhoeddi amryw o gamau i gynorthwyo rhieni ar eu pen eu hunain, gan gynnwys ymestyn y rhaglenni peilot Credyd Mewn-Gwaith a chynnig cynhorthwy ariannol rhag-blaen at gostau gofal plant yn Llundain.

34. O dderbyn y cynnydd sylweddol mewn argaeledd gofal plant ers 1997, cynigiwn o Hydref 2008 na fydd rhieni ar eu pen eu hunain gyda phlentyn ieuengaf yn 12 oed neu'n hŷn bellach â hawl i Gynhorthwy Incwm yn unig ar y sail o fod yn rhiant ar eu pen eu hunain. Gallant, fodd bynnag fod a hawl i drosglwyddo i Lwfans Chwilio am Waith neu fudd-dâl arall. Yn ddiweddarach, o Hydref 2010 neu fel y bydd adnoddau yn caniatáu, byddai'r oedran hwn yn cael ei ostwng i saith mlwydd oed.

35. Bydd disgwyl i'r rhieni ar eu pen eu hunain sydd yn trosglwyddo i'r Lwfans Chwilio am Waith chwilio am waith addas yn gyfnewid am gymorth a chynhorthwy wedi'i bersonoli. Mae'r rhaglen boblogaidd a llwyddiannus Bargen Newydd i Rieni ar eu pen eu hunain yn cynnwys cynhorthwy cynghorydd personol, cymorth gyda gofal plant a hyfforddiant ac anogaethau ariannol. Gan adeiladu ar hyn byddwn yn sicrhau fod rhieni ar eu pen eu hunain yn cael y cymorth, cynhorthwy a chyngor addas cyn eu bod yn hawlio Cynhorthwy Incwm a phan na fyddant mwyach yn gymwys i'w dderbyn. Bydd hyn yn cynnwys gwell darpariaeth gofal plant a chymorth gyda chanfod swyddi gyda'r oriau gwaith hyblyg addas.

36. Yn ychwanegol, dymunwn weld bod rhieni ar eu pen eu hunain yn well eu byd pan symudant i waith. Mae'r gyfundrefn credyd treth mewn bodolaeth er mwyn gwneud i weithio dalu, ond mae angen i ni ystyried sut i sicrhau bod rhieni ar eu pen eu hunain sydd yn cynnig am swydd yn gwybod yn union beth fydd y pae wrth fynd adref petaent yn cael y swydd. Byddwn hefyd yn archwilio'r profiad gyda Chredyd Mewn-Gwaith er mwyn gweld pa ran gall y fath gymhellion ariannol ei chwarae.

Teuluoedd o gyplau

37. Mae angen i ni hefyd dalu mwy o sylw i gyfrifoldebau bod yn rhieni yr holl deuluoedd sydd yn derbyn budd-daliadau. Bu i ni dderbyn yr argymhellion yn adroddiad Harker a byddwn yn newid cyfundrefnau a nodau Canolfan Byd Gwaith er mwyn sicrhau bod darpariaeth ein rhaglenni cyflogaeth yn canolbwyntio mwy ar deuluoedd:

- rydym yn ymestyn rhai elfennau neilltuol Fargen Newydd Plws i Rieni ar eu pen eu hunain i gynnwys pob cwpl sy'n rhieni yn yr ardaloedd peilot presennol ac ar draws Llundain;
- rydym wedi codi gwerth Credyd Mewn-Gwaith, sydd ar gael i bob rhiant sy'n derbyn budd-daliadau i £60 yr wythnos; ac
- rydym yn cyflwyno cyfweliadau gorfodol sydd yn canolbwyntio ar waith bob chwe mis i bartneriaid cwsmeriaid Lwfans Chwilio am Waith gyda phlant, i drafod cyflogaeth ac amlinellu'r cymorth a chynhorthwy sydd ar gael i'r grŵp hwn. Byddwn yn parhau i adolygu hyn. Fel y mae gyda rhieni ar eu pen eu hunain, mae gwaith yn cynnig ffordd botensial allan o dlodi i lawer o'r teuluoedd hyn.

Chwilwyr am Waith

38. Mae gofyn i chwilwyr am waith o dan y trefniadau presennol i chwilio am waith o ddifrif er mwyn medru hawlio Lwfans Chwilio am Waith ac fe ategir hyn drwy gyfarfodydd byr, cyson yn Canolfan Byd Gwaith. Ar gyfer hawlwyr mwy hirdymor sydd yn derbyn Lwfans Chwilio am Waith, mae'r Bargeinion Newydd wedi darparu rhaglen lwyddiannus o gynhorthwy wedi ei strwythuro a dewisiadau i'r chwilwyr am waith ieuengaf ar ôl chwe mis ac i'r chwilwyr hŷn ar ôl 18 mis.

39. Rydym yn cynnig adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy godi'r disgwyliadau yn gyson o'r hyn y dylai un sy'n chwilio am waith ei gyfrannu yn ogystal â phriodi hyn gyda chynhorthwy cynyddol po hwyaf y bydd rhywun yn derbyn y budd-dâl. Rydym yn dymuno ymbellhau oddi wrth wahaniaethu anhyblyg y Bargeinion Newydd cyfredol rhwng dosbarthiadau oedran a chyflwyno agwedd newydd, hyblyg, personoledig i gwsmeriaid mwyaf eu hanfantais. Bydd hyn yn adeiladu ar gryfderau, profiad a gwybodaeth arbenigol Canolfan Byd Gwaith, cyrff sectorau preifat a gwirfoddol a chyrff cyhoeddus eraill. Bydd y cymorth sydd yn cael ei ddarparu hefyd yn canolbwyntio mwy ar gadw a gwneud cynnydd yn y gwaith.

40. Byddai'r rhai sydd yn wynebu rhwystrau arbennig o galed rhag gweithio yn cael cymorth yn gyflym. Gallai'r rhai gyda hanes hir o ddibynnu ar fudd-daliadau wynebu cyfrifoldebau mwy llym ar ddechrau cais, lle mae hynny'n addas. Byddai hyn yn caniatáu i gynghorwyr personol yn Canolfan Byd Gwaith gynnig cynhorthwy mwy dwys ar gyfnodau addas y cais.

41. Byddai ein hagwedd newydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- yn dilyn cyfnod cychwynnol o dri mis ar fudd-daliadau, byddai'r gofynion chwilio am waith yn lledaenu, ar sail teithio i waith, cyflog ac oriau gwaith yn hytrach na chyflogaeth neu yrfa a fyddai'n fwy dymunol gan yr hawlydd;

- yn dilyn tri mis pellach, byddai cwsmeriaid yn mynd i drwy'r cam Mynedfa gydag adolygiad ffurfiol gyda chynghorydd personol i ail-edrych ar yr anghenion a ganfuwyd yn y Cytundeb Chwiliwr- am-Waith cynharach ac i lunio cynllun gweithredu 'nôl-i-waith. Byddai'r cynllun yn dewis allan o restr o weithgareddau a byddai disgwyl i unigolion gytuno â nifer o weithgareddau a'u cyflawni. Byddai pob un o'r gweithgareddau a gytunwyd arnynt yn orfodol; byddai methu â chydymffurfio yn golygu sancsiwn addas;

- dychmygwn y bydd y cam Mynedfa hwn hefyd yn cynnig cyfle pellach i gyfeirio'r cwsmer am archwiliad sgiliau, ac os yw hynny'n addas, hyfforddiant. Mae'r cynigion presennol ar gyfer Lloegr. Bwriad y Llywodraeth yw ymestyn y fath ddarpariaeth ledled Prydain Fawr yn gyfan yn dilyn trafodaethau gydag Adran Weithredol yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru;

- ar ôl 12 mis byddai'r cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at ddarparwr 'nôl – i'r-gwaith arbenigol o'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol a fyddai'n darparu'r gwasanaeth dwys, wedi ei ganoli ar ganlyniadau, a fyddai'n cael ei gyllido yn ôl llwyddiant;

- byddai gofyn i gwsmeriaid sydd yn parhau i dderbyn budd-daliadau yn dilyn cyfnod penodol, ac wedi methu dod o hyd i waith drwy gynghorydd arbenigol i ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith amser-llawn – yn y gymuned neu gyda chyflogwr cyson – er mwyn sicrhau fod pob cwsmer yn cael y cyfle i loywi eu sgiliau gwaith; ac

- ar draws y gyfundrefn hyblyg hon byddai'r cynnig o gymorth pellach yn cael ei gydbwyso â'r cyfrifoldeb ar unigolion i wneud y defnydd gorau o'r gefnogaeth honno neu wynebu colled o ran budd-dâl. Mae hyn yn rhan bwysig o'r Bargenion Newydd cyfredol gorfodol a byddai'n parhau i fod yn nodwedd o'r Fargen Newydd hyblyg. Byddai Canolfan Byd Gwaith yn parhau i fod yn gyfrifol am osod sancsiynau budd-dâl lle bo hynny'n angenrheidiol.

Lleiafrifoedd Ethnig

42. Rydym wedi llwyddo i godi cyflogaeth ymhlith lleiafrifoedd ethnig, er ei fod yn parhau i fod yn isel iawn i rai. Mae llawer iawn o bobl sydd allan o waith ddim hyd yn oed yn hawlio budd-daliadau, er gwaethaf y ffaith eu bod yn derbyn incwm isel iawn. O ganlyniad ceir cyfraddau uchel iawn o dlodi plant. Yn gyfan gwbl, mae plentyn sydd mewn teulu o leiafrif ethnig ddwywaith yn fwy tebygol o dyfu i fyny yn dlawd. Mae tri-chwarter o blant Bangladeshi a dwy ran o dair o blant Pacistanaidd yn tyfu i fyny mewn tlodi.[4]

43. Mae angen i ni sicrhau bod ein holl raglenni yn parhau i ddarparu canlyniadau o gyflogaeth uwch heb ystyried cenedligrwydd. Mae angen i ni hefyd deilwra dulliau newydd yn yr ardaloedd ble mae lleiafrifoedd ethnig yn byw, drwy adeiladu ar raglenni cyfredol megis y rhaglenni peilot Dinasoedd Teg, Cronfa Ardaloedd Difreintiedig a Strategaeth Dinasoedd.

44. Mae anffafriaeth ar ran cyflogwyr yn brif ffactor wrth esbonio anfantais cyflogaeth. Byddwn yn ystyried barn arweinwyr busnes yn ofalus ar y dull gorau o fynd i'r afael â'r anffafriaeth hwn yn erbyn lleiafrifoedd ethnig a hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle.

Y rhai tlotaf eu sgiliau

45. Mae pobl gyda diffyg sgiliau neu gymwysterau ymhlith y rhai dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur. Awgrymodd adolygiad Leitch mae'r allwedd i wella eu gobaith am waith oedd sefydlu mwy o weithio cyd-gysylltiedig rhwng y gwasanaethau symud o fudd-dâl i waith a'r gwasanaethau sgiliau Yn unol ag adolygiad yr Arglwydd Leitch, ein dymuniad yw creu integreiddiad llawer mwy agos rhwng darpariaeth cyflogaeth a sgiliau. Rydym yn cynllunio cyfundrefn newydd lle bydd cwsmeriaid y mae diffyg sgiliau yn rhwystr iddynt gael gwaith yn cael mynediad cyflymach i'r hyfforddiant cywir.

46. Yn Lloegr, bydd Canolfan Byd Gwaith yn clustnodi a chyfeirio y rhai y mae angen cynhorthwy a chyngor arbenigol arnynt at y Gwasanaeth Gyrfaoedd Oedolion newydd am asesiad dyfnach o'u sgiliau. Bydd cynghorydd cyflogaeth Canolfan Byd Gwaith wedyn yn trafod gyda'r sawl sy'n chwilio am waith ac yn cytuno pa hyfforddiant y dylid ei ymgorffori yn ei gynllun 'nôl-at-waith.

47. Rydym yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ystyried sut y gellid llwyddo i integreiddio yr agenda gyflogaeth a sgiliau ar draws y DU.

---

[4] *Ethnicity and Child Poverty* (2006), paper for the Ethnic Minority Employment Task Force, Lucinda Platt.

Pennod pump – Cyflawni drwy bartneriaeth

48. Er mwyn cyflawni yn wyneb y cyflymu cam yn y cynhorthwy a gynigiwn, mae angen mecanweithiau cyflawni newydd arnom. Bydd Canolfan Byd Gwaith yn aros yn graidd i'n hymdrechion i gyrraedd gyflogaeth lawn, gan weithredu yng nghanol rhwydwaith o bartneriaid. Fel y cadarnhawyd gan adroddiad Freud, mae Canolfan Byd Gwaith yn effeithlon iawn fel prif borth i mewn i symud o fudd-dâl i waith a chynhorthwy 'nôl-i-waith.

49. Bydd Canolfan Byd Gwaith yn cynorthwyo cwsmeriaid i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas y gyfundrefn les, talu budd daliadau, darparu cyngor a chyfeirio at gredydau treth, gofal plant, tai ac iechyd yn eu rôl fel eiriolwyr. Ar gyfer y dyfodol y mae hefyd yn uchelgais gennym i Canolfan Byd Gwaith chwarae rhan allweddol i wireddu gweledigaeth Sir David Varney o wasanaeth llywodraeth cydgysylltiol i'w dinasyddion, yn cynnig mynediad i ystod ehangach o wasanaethau neu yn gweithredu fel brocer sy'n dod o hyd i'r atebion cywir ar gyfer anghenion unigolion.

50. Gwyddom fod Canolfan Byd Gwaith yn gweithio, ond gwyddom hefyd nad all ddarparu popeth sydd ei angen ar ei ben ei hun. Mae llawer o'r rhai sydd allan o waith ers cyfnod maith yn wynebu llu o rwystrau i waith, megis sgiliau isel, iechyd corfforol neu feddyliol bregus, argaeledd cyfyng i ofal plant, neu anhawster teithio i gyflogaeth addas. Mae llawer hefyd yn wynebu rhwystrau pellach i gyflogaeth fel y bo'u hawlio budd-dâl yn ymestyn, gan golli hunan hyder, neu ddisgyn i ddyled sydd yn arwain at gylchdro o nychdod.

51. Bydd cyflawniad llwyddiannus felly yn galw am bartneriaeth agos gyda chyflogwyr, gyda darparwyr gwasanaethau cyflogaeth yn y sectorau preifat a gwirfoddol, a gyda rhannau eraill o'r llywodraeth. Rydym o'r farn fod i Canolfan Byd Gwaith ran arbennig o allweddol yn y gwaith o ddarparu cyngor chwilio am waith ac ysgogiad yn ystod cyfnod cynnar cais unigolyn. Efallai y gellid rhoi gwasanaeth gwell i bobl a fu ar fudd am gyfnod hirach drwy gynhorthwy arbenigol y gellid ei ddarparu gan y sectorau cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector, yn ddibynnol ar yr hyn sy'n llwyddo.

Y sector preifat a gwirfoddol

52. Mae partneriaid y sectorau preifat a gwirfoddol eisoes yn chwarae rhan werthfawr yn cyflawni rhaglenni megis Parthau Cyflogaeth a'r Bargeinion Newydd i bobl anabl a chwilwyr gwaith a dylem adeiladu ar hyn. Gall eu gwybodaeth arbenigol profiad a sgiliau, gynorthwyo i gynyddu dyfeisgarwch ac effeithlonrwydd gwasanaethau 'nôl-i-waith i ddarparu cynhorthwy wedi ei deilwra'n well ar gyfer y rhai mwyaf anodd eu cynorthwyo. Rydym yn archwilio sut i roi rhagor o gyfrifoldeb i ddarparwyr am y cynhorthwy dwys y mae ei angen ar dderbynwyr budd-dâl hirdymor. Byddai hyn yn y cam 12 mis i'r rhan fwyaf o chwilwyr am waith a gallai fod yn gynharach ar gyfer cwsmeriaid o dan fwy o anfantais, gan gynnwys pobl ar fudd-daliadau analluogrwydd a rhieni ar eu pen eu hunain.

53. Er bod darparu cynhorthwy cyflogaeth yn farchnad fawr a chynyddol, a fydd yn werth oddeutu un biliwn o bunnoedd y flwyddyn yn 2008, nid ydym bob amser wedi sicrhau y gwerth gorau am arian a'r ddarpariaeth fwyaf gost-effeithiol. O adeiladu ar argymhellion yn adroddiad David Freud, rydym yn cynnig cyfyngu ar gostau a darparu gwell ysgogiadau drwy gynhyrchu mwy o gystadleuaeth a gogwyddo tuag at wasanaeth wedi ei anelu mwy at ganlyniadau.

54. Mae cefnogi pobl ar fudd-daliadau yn golygu cost arwyddocaol i'r trethdalwr. Mae'r Llywodraeth yn cynnig cynnal peilot ar agwedd lle mae darparwyr sydd yn llwyddo i symud pobl i gyflogaeth gynaliadwy (canlyniad a fyddai hefyd yn cynorthwyo i ostwng gwariant ar les) yn cael eu gwobrwyo gyda rhagor o gyllid iddynt ei fuddsoddi mewn rhagor o weithgaredd.

Gweithio mewn partneriaeth ar raddfa leol

55. Mae yna fanteision arwyddocaol i'w cael drwy ffrwyno ymrwymiad, ynni a syniadau partneriaid y sector cyhoeddus a chyflogwyr lleol i fynd i'r afael â diweithdra mewn cymunedau. Mae strategaeth Dinasoedd y Llywodraeth wedi ei chynllunio i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y rhai sydd fwyaf dan anfantais mewn cymdeithas. Mae pymtheg o rai arloesol yn bodoli ar hyn o bryd yn Lloegr, Yr Alban a Chymru.

56. Yn ogystal, rydym hefyd yn edrych ar sut i gyfarfod yr her o gydcysylltu cyflogaeth a sgiliau yn lleol. Amlinellir hyn yn '*World Class Skills: Implementing the Leitch Review of Skills in England*', a gyhoeddir yn yn gyfochrog â'r Papur Gwyrdd hwn.

Ymgynghori

57. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn amlinellu sut y mae'r Llywodraeth yn golygu symud tuag at gyflogaeth lawn, gan roi i bawb y cyfle i weithio a chyfrannu tuag at gymdeithas. Mae'r Papur Gwyrdd yn gofyn am sylwadau ar y cynigion a amlinellir erbyn 31 Hydref 2007.

58. Wrth gwrs, mae i rai o'r cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn oblygiadau o safbwynt adnoddau; er enghraifft y cynigion parthed rhieni ar eu pen eu hunain a Partneriaethau Cyflogaeth Lleol. Felly, mae natur ac amseriad y newidiadau a gynigir yn dibynnu ar argaeledd adnoddau.